Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Croesi'r crwbanod

**Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn nodi pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar yr effaith y gall taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ei chael ar yr amgylchedd a bywyd gwyllt.**



Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr awyr, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd modd i ddysgwyr wneud y canlynol:**

- **Esbonio sut y gallai bagiau plastig fod yn beryglus i fywyd gwyllt y môr.**

## Hyd y sesiwn

15 munud

## Maes cwricwlwm

ADCDF

## Lleoliad

Unrhyw leoliad sydd â digon o le

addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Dolenni cwricwlwm

### CA2 ADCDF
**Treuliant a gwastraff**
O ble mae'r pethau y mae pobl yn eu defnyddio'n dod, ac i ble maen nhw'n mynd
Bod gwastraff yn gallu achosi llygredd

### CA3 ADCDF
**Yr amgylchedd naturiol**
Dangos pryder gwybodus dros ansawdd yr amgylchedd naturiol ymhell ac agos

## Offer ac adnoddau

- Papur
- Clipfwrdd
- Pensiliau
- Rhywbeth i farcio grid ar y llawr (e.e. sialc, ffyn neu dâp)

## Beth i'w wneud

Trafodwch sut mae ein gwastraff yn aml yn cyrraedd y môr, lle gall gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt. Gall anifeiliaid y môr fel crwbanod a dolffiniaid gamgymryd bagiau plastig am slefrod môr. Mae bwyta bag plastig ar ddamwain yn achosi rhwystrau yn eu systemau treulio bwyd, a marwolaeth.

1. Gosodwch grid 4 x 5 ar y llawr – dylai pob sgwâr fod yn ddigon mawr i un dysgwr sefyll y tu mewn iddo. Gellir gwneud y grid mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys defnyddio sialc ar yr iard, tâp ar y llawr neu ffyn hyd yn oed.
2. Mae'r grid yn cynrychioli'r môr, ac mae pob aelod tîm yn cynrychioli crwban. Nod y gêm yw cael cynifer o grwbanod o un ochr o'r môr i'r ochr arall. Fodd bynnag, mae "bagiau plastig" yn cuddio yn y môr, a gall crwbanod eu camgymryd am slefrod môr. Gall bwyta bag plastig arwain at farwolaeth y crwban.
3. Gall crwban deithio ar draws y grid un sgwâr ar y tro. Dim ond i'r sgwâr wrth ymyl yr un y mae ynddo ar hyn o bryd y gall symud iddo (h.y. ni all neidio neu gamu dros sgwâr). Gall deithio ymlaen, yn ôl neu i'r ochr, ond ni all deithio yn groeslin.
4. Rhannwch yn ddau grŵp, a rhowch glipfwrdd a phapur plaen i bob grŵp. Yna bydd angen i bob grŵp dynnu llun grid 4 x 5 ar eu papur. Byddan nhw wedyn yn nodi nifer penodol o 'X' ar eu grid er mwyn cynrychioli bagiau plastig sy'n cuddio yn y môr. Mae gan y grwpiau un bag yn llai o fagiau plastig i'w gosod na nifer yr aelodau yn y grŵp sy'n eu gwrthwynebu (h.y. ar gyfer grŵp o chwech, byddai angen i chi osod pum bag plastig). Mae angen bod llwybr diogel er mwyn i'r crwbanod deithio ar draws y grid heb fwyta bag plastig.
5. Nod y gêm yw cael cymaint o "grwbanod" ag sy'n bosibl ar draws y môr (grid) heb iddynt gael eu lladd gan fag plastig ("X").
6. Bydd y grŵp cyntaf yn croesi'r "môr" tra bydd yr ail grŵp yn dilyn eu cynnydd. Bydd y "crwban" cyntaf yn dechrau croesi'r grid un sgwâr ar y tro. Os yw'n cerdded i sgwâr sydd ag X ynddo, bydd y tîm arall yn gweiddi "bag plastig!". Mae'r "crwban" hwn allan o'r gêm bellach. Mae'r bag plastig yn aros yn yr un lle. Yna bydd yr aelod nesaf o'r grŵp yn rhoi cynnig ar groesi'r môr gan geisio osgoi lleoliadau'r bagiau plastig.
7. Mae pob aelod o'r grŵp yn cael un cyfle i groesi'r grid. Mae'r grŵp yn sgorio un pwynt ar gyfer pob aelod sy'n llwyddo i groesi'r grid heb gerdded i mewn i fag plastig.
8. Ar ôl i bob aelod gael cyfle, mae'r ddau grŵp yn cyfnewid lle, ac mae'r ail grŵp yn ceisio mynd ar draws grid y grŵp cyntaf.
9. Y grŵp sydd â'r nifer mwyaf o grwbanod wedi llwyddo i groesi'n ddiogel sy'n ennill.

Os ydych yn gweithio gyda grŵp mawr, gallech ystyried cael dau grid a rhannu'r plant yn bedwar grŵp, neu ddefnyddio grid mwy.

### Cwestiynau allweddol posibl

- Sut mae sbwriel yn y môr yn cael effaith ar y bywyd gwyllt?
- Sut mae bagiau plastig yn cyrraedd y môr?

## Addasu ar gyfer anghenion/galluoedd gwahanol

Llai abl:
- Defnyddiwch daflen waith gyda'r grid wedi'i nodi arni'n barod, fel bod angen i'r grŵp benderfynu ble i roi'r bagiau plastig "X" yn unig
- Gofyn i bob grŵp roi llai o fagiau plastig ar y grid

Mwy abl:
- Defnyddiwch grid mwy, a chaniatewch i bob tîm osod mwy o fagiau plastig "X"
- Defnyddiwch gyfeirnodau grid i symud o gwmpas y sgwariau

## Gweithgareddau dilynol/ymestynol

Rhowch gynnig ar ein gweithgareddau gwastraff eraill:
- *Ysbwriel sy'n para am gyfnodau hir*
- *Pytiau o bapurau newyddion*
- *Wyddech chi?*
- *Y tri phwynt ar gyfer taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon*

## Gwybodaeth ychwanegol

Gellir dod o hyd i amrywiaeth o luniau ar y we sy'n dangos pa mor hawdd ydyw i gamgymryd bagiau plastig am slefrod môr.

Fformat amgen; print bras neu iaith arall, cysylltwch os gwelwch yn dda: ymholiadau@ cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

www.cyfoethnaturiol.cymru

FSC www.fsc.org FSC® C-115912
Arwydd o Goedwigaeth Gyfrifol
The mark of responsible forestry
Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC www.fsc.org RECYCLED Paper made from recycled material FSC® C008921
Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper